



**BYWYD
I BAWB**

CODI MILOEDD I APÊL MADAGASCAR: YN YR AWYR, AR Y LLAWR!



Hedfan ar y zip-wire

Fe wnaeth Is-lywydd yr Undeb, y Parchg Beti-Wyn James o Gaerfyrddin, fentro ar y wifren gyflym fry uwchben creigiau hen chwarel ger Blaenau Ffestiniog. Cafodd ei noddi i wneud y gamp, a thrwy hynny godi £1,400 tuag at Apêl Madagascar. 'Rown i wedi gosod her bersonol i fi fy hun,' meddai. 'Roedd e'n brofiad a hanner.' Roedd Beti-Wyn hefyd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn. Felly, llongyfarchiadau mawr iddi a phen-blwydd hapus!




Uchod: Paratoi i adael Gwynfe, ac isod Eifion, Siwan a'i mam, Undeg ar ôl cyrraedd Neuadd-lwyd, lle'r oedd tua 40 o bobl i'w croesawu.



Codi £4,000 trwy gerdded o Wynfe i Neuadd-lwyd

Cadw'i draed ar y ddaear wnaeth Eifion Griffiths, cyn-drysorydd yr Undeb, wrth gerdded tua 40 milltir gyda'i ferch Siwan, o Jerwsalem, Gwynfe i Neuadd-lwyd ger Aberaeron dros penwythnos y Pasg. Mae'r ddau yn ddisgynyddion i David Griffiths, un o'r cenhadon a fu'n bennaf gyfrifol am gyfieithu'r Beibl i iaith pobl Madagascar. Aeth yntau o Wynfe i academi Neuadd-lwyd tua 200 mlynedd yn ôl, cyn mynd yn genhadwr i Fadagascar. Cafodd Eifion y syniad o wneud y daith gerdded ar ôl bod yn ymweld â Madagascar yn ddiweddar i weld lle bu David Griffiths yn byw ac yn gweithio.



Taith fendigedig

Roedd Eifion a Siwan yn cael eu noddi, ac fe lwyddwyd i godi'r swm rhyfeddol o dros £4,000 tuag at yr Apêl. Cymrwyd tridiau i gerdded o droed y Mynydd Du bron hyd at olwg Bae Ceredigion, gan fynd dros brynau serth gogledd Sir Gâr. 'Am brofiad bendigedig,' meddai Eifion. 'Roedd Siwan, sy'n byw yn Llundain, wedi mwynhau yn fawr iawn, fel finnau. Roedd yn amser hyfryd o'r flwyddyn, a'r tywydd ar ei orau ar hyd y daith trwy ran o'r tirwedd mwyaf prydferth yng Nghymru. Llwyddom i osgoi'r priffyrdd, gan gadw at heolydd cefn gwlad a llwybrau. Fe wnaeth hynny roi rhyw fath o syniad i ni sut daith fu hi i David Griffiths wrth fynd o'r naill le i'r llall.'

Cawsant groeso mawr gan aelodau Providence, Llangadog ar ddiwedd y diwrnod cyntaf, a chan bobl Neuadd-lwyd ar ddiwedd eu taith. A rhaid oedd cael ambell selffi, wrth gwrs!



LLYTHYR

Annwyl ffrindiau,

TAITH APÊL MADAGASGAR

Mae'n dda gen i adrodd ein bod wedi cwblhau'r daith o Jerwsalem Gwynfe i Neuadd-lwyd, Sir Aberteifi. Yr oedd nifer wedi dod i'n hebrwng o Jerwsalem fore Gwener y Groglith a chawsom groeso yn Providence Llangadog (a chwpanaid o de hefyd) cyn mynd ymlaen dros y tri diwrnod i Neuadd-lwyd. Yno cawsom groeso twymgalon lle yr oedd tua 40 o gefnogwyr wedi ymgasglu, a gwledd wedi'i pharatoi ar ein cyfer ar Sul y Pasg.

Yr oedd y daith o tua 40 milltir drwy Sir Gâr a Cheredigion, oedd ar eu gorau yn yr heulwen braf.

Erbyn hyn y mae'r nod wedi wedi croesi £4,000 o bunnoedd sydd yn anhygoel a hoffwn i a Siwan ddiolch i bawb am ei cyfraniadau a'u dymuniadau da. Fe alla i eich sicrhau y bydd arian yr apêl yn gwneud gwahaniaeth mawr i nifer o drigolion Madagascar.

Mi fyddwn yn parhau i dderbyn cyfraniadau am ychydig wythnosau eto ac os bydd unrhyw un arall am gyfrannu, rwy'n cynnwys y manylion isod.

Diolch yn fawr,
Eifion a Siwan

www.justgiving.com/fundraising/gwynfe-nl

Yn syth o'ch cyfrif Banc i 'UAC Apel Madagascar', 20-84-41, rhif 60522600, ref EG

Neu anfonwch sicciau at: Undeb Annibynwyr Cymru, Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanrafon, Llansamlet, Abertawe, SA7 0AJ.

Y Gwanwynol Sêl

Pan â'n dear yn llwm a'n dyndod yn lwyth
Y bannau'n ddi-alw, a'n llafur heb ffrwyth;
Ein dydd yn ddi-asbri a'i iawnderau yn grwm,
Yr ysbryd heb afiaith a'r gofyn yn blwm:
Ymrown hyd y medrwn, er ymchwydd y lli
A daw Gwanwyn yr Arglwydd i'w fywiol fri.

Â'r byd oll yn deilchion gan fomiau tân,
A'r hen wareiddiadau yn gameddi man,
Mor rhad ydi ildio i drachwant taer
Ac amau addfwynder yr aberthol aer:
Pryd hynny'n obeithiol, mewn ffydd a thrwy ras,
Y daw Gwanwyn yr Arglwydd yn wyrthiol las.

Ein llwyddiant a'n methiant – dwy ochor 'run darn,
A dim ond Un cyfiawn i gyd-bwyso barn;
Ein rhyddid-ewylllys yn goron o ran,
A nefoedd ac uffern, mor agos i'r gwan:
Glynnwn trwy weddi ar goedd ac yn gël
Wrth Arglwydd y Gwanwyn a'i sancteiddiol sêl.

DGJ

DYDD SUL I'W GOFIO



Fe atebodd cynrychiolaeth o gapeli gofalaeth y Parchg Carys Ann yng ngorllewin Ceredigion wahoddiad capel Bryn Iwan, Sir Gaerfyrddin i gynnal oedfa ym Mryn Iwan. Cafwyd croeso twymgalon gan yr ysgrifennydd, Rhiannon Mathias, cyn trosglwyddo'r oedfa i ofal y Parchg Carys Ann. Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan blant ysgol Sul Glynarthen, côr merched y bobl ifanc, unigolion o capel Hawen, Bryngwenith, Glynarthen a Brynmoriah. Derbyniwyd croeso rhyfeddol at y byrddau yn y festri ar ddiwedd yr oedfa. Edrychir ymlaen at groesawu aelodau Bryn Iwan i gapel Glynarthen y flwyddyn nesaf.

\$1,000 O WOBR AM GYFANSODDI EMYN: AMERICA'N GALW ANNIBYNWYR CYMRU!

Mae Gŵyl Cymru Gogledd America (North American Festival of Wales) yn gwahodd ceisiadau ar gyfer cystadleuaeth cyfansoddi emyn sef Gwobr Daniel Protheroe. Y wobwr i'r emyn buddugol fydd \$1,000.

Yr oedd Daniel Protheroe (1866–1934) yn gyfansoddwr nifer o emyndonau a ymfudodd o Gwmgiedd, Ystradgynlais i America – i Scranton yn gyntaf ac yna i ardal Milwaukee. Bu ei ddylanwad yn fawr ar fywyd Cambro-Americanaid yn y 1920au a hefyd bu'n ddylanwadol iawn gyda'r Gymanfa Ganu Genedlaethol yn America.

Mae'r ŵyl yn gwahodd ceisiadau ar gyfer emyn gwreiddiol fyddai'n addas i'w ganu mewn cymanfa ganu. Gall yr emyn fod yn draddodiadol neu'n fodern ei naws, ond rhaid i'r geiriau fod ar yr un mydr ag emyn Protheroe 'Milwaukee' (564 *Caneuon Ffydd*; ar fydr M.3 neu M.C.)

Bydd ceisiadau yn dod ar ffurf un o'r canlynol (a, b, neu c) gan gadw at y mydr gosodedig:

- emyn cyfan (geiriau a cherddoriaeth)
- geiriau yn unig (Cymraeg, Saesneg neu yn y ddwy iaith); **neu**
- cerddoriaeth yn unig.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1

Gorffennaf, 2019. Nid oes ffi i gymryd rhan.

Derbynnir ceisiadau drwy'r post yn unig, wedi'i farcio gyda stamp dyddiad dim hwyrach na'r dyddiad cau uchod, i'w hanfon at y cyfeiriad isod:

WNAA International Headquarters
Dr Megan Williams, Executive Secretary
P. O. Box 105, Trumansburg, NY 1486
ATTN: Daniel Protheroe Competition

Bydd angen defnyddio ffugenw ar y copi o'r cyfansoddiad ynghyd ag enw'r gystadleuaeth sef 'Daniel Protheroe Competition'. Mewn amlen o dan sêl, byddwch yn rhoi manylion ar bapur:

- enw'r gystadleuaeth (Daniel Protheroe Competition)
- eich ffugenw (fel yr uchod)
- eich enw iawn llawn
- eich cyfeiriad postio, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn

Y beirniaid yw Eric Jones (Cymru) a Mary S. Jones McGuyer (Cymru/Texas). Bydd y beirniadu'n digwydd ganol Awst a'r emyn buddugol yn cael ei gyhoeddi yn ystod y Gymanfa Ganu ar ddydd Sul 2 Medi 2019 ac yn cael ei berfformio gan gôr bychan am y tro cyntaf yn y digwyddiad hwnnw.

Am fwy o fanylion ewch i:
www.thewnaa.org/uploads/1/0/4/2/104284521/eisteddfod_protheroe_2019.pdf
Annibynwyr Cymru, da chi, ewch amdani!



Barn Annibynnol

Gwerth eu cadw

Mae siopau sy'n gwerthu pethau *retro* a *vintage* yn ffasiynol iawn y dyddiau yma a dwi'n hoff iawn o bori ynddyn nhw er mod i'n teimlo'n reit hen wrth weld pethau sy'n perthyn i fy mhлentyndod i ymhlith y creiriau! Cefais siom y diwrnod o'r blaen i ddarganfod set o wydrau cymun rhwng y llestri te blodeuog a model blastic o Noddy. Roedden nhw wedi eu hachub o sgip, yn ôl y perchennog, i'w cynnig i bobl trendi i yfed eu *shots* o alcohol. Dwi'n trio rhesymu nad ydy darnau o bren a gwyr ddim o dragwyddol bwys, ond mae 'na rywbeth mor arbennig am y profiad o gyd-ymuno a'r teimlad yw rhywsut fod lesu a'i ddilynwyr yn cael eu gwawdio drwy gynnig y gwyr i bobl ar gyfer ffug gymun.

Efengyl berthnasol

Tra bod y gymdeithas o'n cwmpas yn ffoli ar hen bethau, o fewn ein heglwysi, rydan ni'n gwneud ymdrech fawr i gael gward â phethau hen ffasiwn. Ymaith â gor-ffurfioldeb sy'n rhwystr i bobl heddiw ddot i nabod ei gilydd a theimlo'n gartrefol! Ymaith hefyd ag iaith astrus er mwyn mynegi ein ffydd mewn ffordd sy'n ddealladwy i bobl o bob oed! Mae mwy a mwy o eglwysi y dyddiau hyn yn arbrofi drwy ddefnyddio'r gweledol i gyfoethogi'r profiad o addoli ac yn gwneud yn siŵr fod gweddiâu a diwinydda yr eglwys yn dangos mor hynod berthnasol yw'r Efengyl Gristnogol i'n bywyd bob dydd heddiw. Cadw'r gorau o'r traddodiad a

chynnwys pethau newydd sy'n helpu ni i ddyfnhau ein ffydd yw'r ffordd ymlaen, greda i.

Y symbolau

Ond mae 'na ofn bach gen i yng nghefn fy meddwl, fod modd i weithiau, yng nghanol bwrlwm brwd y *sbring clîn*, yn mynd i feddwl fod lesu ei hun yn hen ffasiwn, ac ystyried ei adael allan gan roi symbolau fel 'golau' a 'gwanwyn' yn ei le. Wrth gwrs, mae symbolau wedi bod yn help o'r cychwyn cyntaf i fynegi'r ffydd Gristnogol. Serch hynny, mae symbolau bob amser wedi digwydd ochr yn ochr ag adrodd yr hanesion am lesu – ei fywyd, ei ddsgeidiaeth ei farwolaeth a'i atgyfodiad er mwyn rhoi gobaith go iawn i bobl. Ar yr union adeg rydym ni fel eglwysi mewn perygl o adael lesu allan o'n harlwy, mae nifer o'n cantorion cyfoes ni wedi dewis cynnwys emynau sy'n sôn am Dduw, am lesu Grist ac am y Groes ar eu cryno ddisgiau diweddaraf. Tybed oes 'na rywun yn trio dweud rhywbeth wrthom ni?

Gwirioneddau oesol

Profiad gwefreiddiol oedd bod yn un o'r dorf yng nghanol dinas Bangor ar ddydd Gwener y Groglith eleni a gweld yr hanes am lesu'n cael ei wawdio a'i groeshoelio yn cael ei actio ar y stryd. Wrth gwrs, mae'r croeshoeliad yn hen stori ac mae wedi cael ei dweud a'i hactio droeon o'r blaen ond rhywsut roedd e'n newydd tro hwn ac yn ennill ystyr newydd wrth ei ddweud ymhlith ymwelwyr Gŵyl y Banc, ganllath o siopau dan fgythiad yr hinsawdd economaidd fregus, rownd y gornel i ble daw dioddefwyr y sustem budd-daliadau a gweithwyr cyflog isel i

dderbyn cynhaliath o'r banc bwyd. Ond nid y Groglith yw diwedd yr hanes wrth gwrs. Ar fore Sul y Pasg yn ein heglwysi buom yn cyhoeddi gwirionedd oesol Atgyfodiad lesu a chael ein hysbrydoli o'r newydd i roi cariad a gobaith go iawn lesu Grist ar waith yn ymarferol yn ein milltir sgwâr.

Casi Jones

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

RHWYDWAITH MERCHED YR ANNIBYNWYR

Adran Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog

CYFARFOD BLYNYDDOL

yng Nghapel Bethesda, Llangennech
nos Fawrth, 7 Mai, 2019
am 7 o'r gloch

Thema: 'Yr Hen Lawenydd'
Siaradwraig: Mrs Hazel Charles Evans

CROESO CYNNES I BAWB



Cymanfa Ganu Annibynwyr Pen Llŷn

Dydd Sul, 12 Mai, 2019
yng nghapel Seion Llanbedrog
am 2.00 y.p Cymanfa Blant
ac am 7.00 y.h Cymanfa Oedolion

Arweinydd:
Mr Iwan Wyn Williams, Llandwrog

Organyddes:
Mrs Dilys Prydderch, Seion

Llywyddion: Mrs Gwenda Roberts,
Hebron, Llangwnnadr

a'r Parch. Glenys Jones, Soar, Nefyn
Gwneir casgliad tuag at y Gymanfa

COFIO CENHADWR ARALL AETH I FADAGASCAR



Dathlu bywyd a gwaith y Parchg J. T. Jones 1889–1952
yng nghmwni ei fab, Philip Jones, Porth Tywyn

DYDD SUL, 12 MAI am 5.00pm

Capel Pant-teg, ger Felinwen, Sir Gâr SA32 7HE

Dewch i glywed yr hanes rhyfeddol
CROESO CYNNES IAWN I BAWB

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen
Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r
Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys y Pedair Tudalen.

YMBIL AM HEDDWCH YN YEMEN YM MHENIEL

Mae rhyfel cartref erchyll yn Yemen, ond bach iawn o sylw mae'r 'rhyfel cudd' hwn yn ei gael gan y cyfryngau. Mae 80% o'r bobol yn dibynnu ar gymorth dyngarol i fyw ac yn ôl y Cenhedloedd Unedig, mae un plentyn yn marw pob deng munud yn y wlad drist honno. Clywodd Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin, yn eu Cwrdd Chwarter ym Mheniel, ger Caerfyrddin, bod llw awyr Saudi Arabia, sy'n cefnogi un ochr yn y rhyfel, wedi bod yn bomio targedau yn Yemen ers 2015. Nid yn unig fod Prydain yn gwerthu arfau i Saudi Arabia, ond mae peiloliaid o'r wlad honno'n cael ymarfer mewn awyrennau rhyfel uwchben Cymru. Rhaid i ni erfyn ar Lywodraeth Lloegr i roi stop ar hyn, meddai'r Parchg Tom Defis ar ran Cymorth Cristnogol sy'n ymgychu i gael heddwch yn Yemen. Yn y llun, gwelir nifer o'r rhai oedd yn y Cwrdd Chwarter gyda cherdyn mawr â llun colomen a grëwyd o ddelweddau o arfau.

Roedd 44 o bobl, yn cynrychioli 26 o eglwysi'r Cyfundeb, yn bresennol yn y cwrdd cyntaf yn y bore. Estynnwyd croeso i bawb gan y



cadeirydd, y Parchg Meirion Sewell, ac ar ôl canu emyn fe wnaeth Maria Evans, aelod ym Mheniel, ddarllen o'r Beibl ac arwain pawb mewn gweddi. Yr organydd yn y bore a'r prynhawn oedd Daphne Jones. Dyma ddetholiad o'r amryw faterion a drafodwyd.

Cyfarfod Blynyddol Undeb 2022

Fe nododd y Parchg Beti-Wyn James bod yr Undeb wedi'i sefydlu ym 1871, digwyddodd y Cyfarfodydd Blynyddol cyntaf yng nghapel Heol Awst ym 1872, gyda Gwilym Hiraethog fel Llywydd yn annerch ar 'Satan'. Cytunwyd i wahodd y cyfarfodydd i Gaerfyrddin yn 2022 i ddatlu'r canrif a hanner, a hynny unwaith eto yn Heol Awst.



Y Parchg Meirion Sewell, Cadeirydd y Cyfundeb gyda Jean Lewis, yr Ysgrifennydd

pregethwyr cynorthwyol cydnabyddedig, a chytunwyd bod lle i gyfundebau ac eglwysi annog rhai sydd â photensial i ddilyn cyrsiau, a chynulleidfaoedd ac eglwysi i fod yn fwy hyblyg. Mae sail gyfreithiol Addysg Grefyddol yn mynd i newid, gyda pherygl y caiff Cristnogaeth lai o sylw. Nodwyd bod y Bedyddwyr yn ystyried gorffen cefnogi'r *Pedair Tudalen*, ond cytunwyd i gadw'r *Tyst*, a'r *Pedair Tudalen* mewn rhyw ffordd.

Apêl Madagascar

Mae'r apêl i F Madagascar, un o wledydd tlotaf y byd, ar agor hyd at yr haf a thu hwnt i hynny. Mewn ymateb i ymholiad am Rodd Gymorth ar y cyfraniadau, dywedwyd mai'r trwy roi cyfraniad i Undeb yr Annibynwyr a llenwi ffurflen Rhodd Gymorth mae gwneud hynny. Aeth casgliad y cwrdd at yr Apêl.

Gŵyl y Sul Sbesial, 14 Gorffennaf 2.00

Dywedodd Joan Thomas bod yr ŵyl i'w chynnal yn Yr Egin, Caerfyrddin, gyda Nigel Davies yn cynnal gweithgareddau'r plant; Iola Wyn yn holi Emyr Lewis am ei ffydd; Rhodri Darcy i gynnal sesiwn digidol gyda'r ieuencid; a Meleri Cray, prif weithredwr Cymdeithas y Beibl, yn annerch yr oedolion. Bydd pawb gyda'i gilydd ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfarfod, a bydd

cyfle i brynu cacen a phaned yng nghaffi'r Egin wedyn.

Cwrdd Chwarter Priordy, 9 Mai, 4.00 a 7.00.

Estynnwyd croeso cynnes gan Alun Charles ar ran y Priordy, pan fydd cyfle i weld y newidiadau sydd wedi digwydd yn y capel.

Peniel yn ei bro heddiw a chroeso'r eglwys

Y Parchg Emyr Gwyn Evans roddodd adroddiad am yr eglwys, sy'n rhan o Ofalaeth Brÿydd Myrddin, lle mae gwaith nifer o aelodau yn gysylltiedig â byd amaeth. Mae yna nifer o ieuencid a phlant yn yr ysgol Sul, sy'n barod iawn i gynorthwyo mewn oedfaon. Mae'r Gymdeithas Ddiwylliadol yn cwrdd bob mis am yn ail â Bwlch-y-corn. Cynhelir oedfa garolau i'r gymuned ym mis Rhagfyr, ac mae nifer o'r aelodau yn perthyn i Ferched y Wawr a Sefydliad y Merched sydd, yn ogystal â chymdeithasau eraill, yn cwrdd yn y capel a'r festri yn achlysurol. Mae eglwysi'r ofalaeth yn cydaddoli'n achlysurol, ac yn cydgyfarfod i godi arian at Apêl Madagascar. Estynnodd groeso cynnes i bawb i'r Cwrdd Chwarter ac i'r festri i fwynhau lluniaeth a chymdeithasu.

Penderfyniadau i'r Undeb

Cytunwyd y dylai swyddogion y Pwyllgor Gwaith lunio dau benderfyniad i Gyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Rhydymain ym mis Mehefin, sef un yn ymwneud â newid hinsawdd, a'r llall yn galw am wneud gwell defnydd o'r drefn gynllunio i reoli'r gorddatblygu tai sy'n niweidiol i'r iaith Gymraeg mewn cymunedau.

Talu teyrnged

Cyfeiriwyd at farwolaeth y Parchg Euros Wyn Jones, a ordeiniwyd yn y Cyfundeb. Cydymdeimlwyd â'r teulu, a nodwyd y golled ar ei ôl gan lawer. Fe wnaeth nifer o aelodau eglwysi'r Cyfundeb elwa o'i wasanaeth, bu'n gefnogol iawn i weinidogion newydd eu hordeinio, a bu'n gefn iddynt yn eu gwaith. Diolchwyd i aelodau Henllan Amgoed am drefnu cyfarfod coffa iddo. Daeth y cyfarfod i ben gyda'r cadeirydd yn cyhoeddi'r Fendith.

Cyfarfod y prynhawn

Wedi croeso gan y cadeirydd, a chanu emyn, darllenwyd o'r Beibl a gweddiwyd gan Arthur Morgan, aelod ym Mheniel. Casglwyd unwaith eto at Apêl Madagascar, cyn i'r cadeirydd gyflwyno a chroesawu'r Parchg Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr. Bu adroddiad cynhwysfawr am ei anerchiad mewn rhifyn blaenorol o'r *Tyst*. Diolchodd y Parchg Guto Llewelyn am y croeso cynnes ym Mheniel, ac i Dyfrig Rees am ei anerchiad, i Meirion Sewell am gadeirio ac i Jean Lewis am y trefniadau, a phawb arall a oedd â rhan yn llwyddiant y dydd. Cyflwynwyd y Fendith gan y cadeirydd i gloi dau gyfarfod buddiol a bendithiol iawn.